# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw
# ar y 12fed o Dachwedd 2019
# yn Neuadd Goffa Llwyncelyn am 7.30 yh

**Presennol:**
Y Cynghorwyr Gerallt Davies (Cadair), Ruby Williams, Carys Morgan, Wyn Jones, Wyn Evans a Garym Roberts.
**Hefyd yn bresennol:**
Y Clerc.
**Ymddiheuriadau:**
Y Cynghorwyr Eiddwen Merritt, Jocelyn Andrew a Barry Owen.
**Datgelu buddiannau:**
Yn cael eu parchu.
**Cofnodion:**
Darllenwyd cofnodion Mis Hydref a'u cafwyd yn gywir.
**Codi o'r cofnodion**
Dim.
**Mater cynllunio:**
Dim.
**System Draenio Cynaladwy(SUDS)**
Derbyniwyd wybodaeth oddiwrth Llywodraeth Cymru yn sôn am newid sy'n cael ei gynnig i'r Gorchymyn uchod ynghylch systemau draenio cynaliadwy (SuDS), ar hyn o bryd mae'r ddirwy y gellir ei rhoi mewn achos o drosedd o beidio â chydymffurfio yn uchafswm o £20,000. Er mwyn sicrhau cysondeb â throseddau eraill o natur debyg, cynigir newid y terfyn o £20,000 i 'ddirwy' yn unig. Pan fydd y Gorchymyn Diwygio wedi'i wneud fe geir wybodaeth pellach.
**Cylchlythyr Comisiynydd Pobl Hŷn**
Cafwyd gylchlythyr o'r uchod i'w rannu rhwng yr aelodau.

**Unrhyw Fater Arall:**
Gofynwyd i'r clerc wneud ymholiadau achos fod y polyn golau newydd o flaen Gorwel, Ffos-y-ffin ddim wedi cael ei gysylltu o gwbwl ers ei osod ym Mis Chwefror.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.05.

Bydd y cyfarfod nesaf ar y 10fed o Ragfyr.